


# BUCHEDD BANGOR



Cadeirlan Deiniol Sant  
ym Mangor  
Saint Deiniol's Cathedral  
in Bangor




**PASG**  
**2023**  
**EASTER**  
**2023**



**Cadeirlan  
Deiniol Sant  
ym Mangor**

**Saint Deiniol's  
Cathedral  
in Bangor**



**CYLCHGRAWN  
CADEIRLAN  
DEINIOL SANT  
YM MANGOR  
THE MAGAZINE  
OF SAINT  
DEINIOL'S  
CATHEDRAL  
IN BANGOR**

**16.4.2023-18.6.2023**

**RHAD AC AM DDIM**

**EWCH Â CHOPIAU I'W RHANNU**

**FREE**

**PLEASE TAKE COPIES TO SHARE**

# CROESO WELCOME

*Gareth Jones*


## Croeso i'r rhifyn diweddaraf hwn o **Buchedd Bangor**, cylchgrawn **Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor.**

"Buchedd" yw'r enw a roddir ar gofnod o fywyd rhywun, a cheir bucheddau'r saint o'r Canol Oesoedd sy'n adrodd hanes rhai o brif seintiau Celtaidd Cymru.

Mae **Buchedd Bangor**, felly, yn rhyw fath o gofnod o fywyd ein cymuned ni o gyfeillion Crist ym Mangor yr awr hon. Fe geir yma gymysgedd o ddefnydd ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd.

Ysgrifennaf y rhagymadrodd hwn yn ystod Wythnos y Pasg, gan edrych yn ôl ar ddefodau'r Wythnos Fawr a'r Tridiau a fu'n ddwys, yn deimladwy ac yn deilwng. Yn fwy hyfryd fyth, bu i'n taith drwy'r wythnos gynnwys cynifer o aelodau o deulu'n Cadeirlan, gan hefyd wneud defnydd gwych o'n celfi newydd, a rhoi'r cyfle i groesawu newydd-ddyfodiaid a hen ffrindiau dros y trothwy. Ynghanol y difrifoldeb a'r gwaith caled roedd llewyrch gobaith a phwrpas i'w weld, yn datgelu inni'n galwad yn y fangre hon yn gliriach byth.

Mae'r addoli, y pererindota a'r gwasanaethu beunyddiol yn parhau dros y misoedd nesaf, pan weddiwn y bydd teulu'n Cadeirlan yn parhau i dyfu. Diolch i chi am fod yn rhan o gymuned o ffydd, gobaith a chariad yn y Gadeirlan ac ym Mro Deiniol. Yn ôl yr arfer, dyma eich gwahoddiad i gyfranogi'n helaeth yn y defodau a'r dathliadau a amlinellir yn y rhifyn hwn, ac i wahodd eraill i ymuno â ni ar ein taith yng ngoleuni Crist.



## Welcome to this latest issue of **Buchedd Bangor, the magazine of Saint Deiniol's Cathedral in Bangor.**

"Buchedd" is the old Welsh name given to a record of someone's life, and "bucheddau'r saint" (the "lives of the saints") are those medieval collections of works telling the story of the Age of the Saints.


**Buchedd Bangor** is, therefore, a sort of record of the life of our community of Christ's companions here in Bangor at this time. It offers a mixture of devotional material and practical knowledge about our life together.

I write this introduction during Easter Week, looking back at an observance of Holy Week and the Sacred Triduum that was profound, moving and worthy. Even more delightfully, our progress through the week incorporated so many members of our Cathedral family, made splendid use of our new Nave furniture, and welcomed both newcomers and old friends over the threshold. Amid the seriousness and hard work there was a bright light of hope and purpose, revealing our calling in this place ever more clearly.

The round of worship, pilgrimage and service continues over the months ahead, when we pray that our Cathedral family will continue to grow. Thank you for being part of community of faith, hope and love at the Cathedral and in Bro Deiniol. As ever, this is your invitation to be fully involved in the rites and celebrations outlined in this edition, and to invite others to join us in Christ's light.

*Rhys Evans,*  
*Siôn*

**Oddi wrth yr  
Is-Ddeon  
From the  
Sub-Dean  
Canon Siôn  
Rhys Evans**



# PANED HEFO

## JOSIE GODFREY

**Ym mhob rhifyn o Buchedd Bangor, rydym yn cwrdd ag aelod o gymuned y Gadeirlan. Y tro hwn, rydyn ni'n cwrdd a Josie Godfrey, a fydd yn ymuno â ni fel ein Curad yn dilyn ei hordeinio yn y Gadeirlan ar 1 Gorffennaf 2023.**

Yn holi mae Naomi Wood, ein Cyfarwyddwr Cyfathrebu esgobaethol a'n Gweinidog Teulu yn y Gadeirlan ac ym Mro Deiniol.


### **Dwed wrtha'i chydig am Josie.**

Cefais fy magu yn High Wycombe rhwng Llundain a Rhydychen, a dyna lle mae fy rhieni yn dal i fod. Nid oes gennyf unrhyw frodyr neu chwiorydd nac anifeiliaid anwes ond rwyf wrth fy modd â chŵn a hoffwn gael un pan fyddaf wedi setlo.

Es i'r Brifysgol yn Llundain ac yna ymlaen i Rydychen, Saint Stephen's House, i hyfforddi i fod yn offeiriad. Astudiais gerddoriaeth fel myfyriwr israddedig. Chwaraeais i offerynnau amrywiol yn yr ysgol gan gynnwys y clarinet, sacsoffon a phiano ond canwr ydw i yn bennaf. Dewisais fynd i King's College, Llundain oherwydd roeddwn i wir yn hoffi'r ffordd nad oedden nhw'n canolbwyntio ar berfformiad ac, er nad oeddwn i'n gwybod beth roeddwn i eisiau ei wneud ar ôl y Brifysgol, roeddwn i'n gwybod nad oeddwn i eisiau bod yn berfformiwr unigol a dewisais gerddoriaeth oherwydd dyna oedd fy hoff bwnc.

### **Ydi'r Eglwys wedi bod yn rhan o dy fywyd di erioed?**

Cefais fy Medyddio yn faban ac awn i'r eglwys yn achlysurol ond nid bob dydd Sul. Dechreuon ni fynd ychydig yn amlach pan ddaeth Mam yn athrawes Ysgol Sul am gyfnod ond dechreuais ddeall fy ffydd fy hun, ac eisiau mynd i'r eglwys i mi fy hun trwy'r côr. Roedd yn rhaid i ni fynd yn fwy rheolaidd ond roedd rhywbeth ychwanegol oedd yn fy nhynnu i mewn yn fwy. Dim ond tua deg oeddwn i ar y pryd felly dydw i



# GETTING TO KNOW JOSIE GODFREY

**In each edition of Buchedd Bangor, we meet another member of the Cathedral community. This time, we meet with Josie Godfrey, who will be joining us as our Curate following her Ordination at the Cathedral on 1 July 2023.**

Asking the questions is Naomi Wood, our diocesan Director of Communications and our Family Minister at the Cathedral and in Bro Deiniol.


## **Tell me a little about Josie.**

I grew up in High Wycombe between London and Oxford, which is where my parents still are. I don't have any siblings or pets but I love dogs and would really like to get one once I'm settled.

I went to University in London and then on to Oxford, to Saint Stephen's House, to train to be a priest. I studied music as an undergraduate. I played various instruments in school including the clarinet, saxophone and piano but I'm mostly a singer. I chose to go to King's College, London because I really liked the way that they didn't focus on performance and, although I didn't know what I wanted to do after University, I knew I didn't want to be a solo performer and I chose music because it was my favourite subject.

## **Has Church always been a part of your life?**

I was Baptized as a baby and we went to church occasionally but not every Sunday. We started going a little more frequently when Mum became Sunday school teacher for a while but I started understanding my own faith, and wanting to go to church for myself through the choir. We had to go more regularly but there was something that just drew me in more. I was only about ten at the time so I don't think I can explain what it was. Most of the rest of the choir only really went when they



ddim yn meddwl y gallaf egluro beth ydoedd. Dim ond pan oedden nhw'n canu yr aeth y rhan fwyaf o weddill y côr mewn gwirionedd felly nid oedd fel petai cylch eang o ffrindiau.

Rwy'n canu clychau llawer, felly pan symudais i Lundain fe wnes i lawer iawn o hynny ac roedd yn golygu fy mod yn canu clychau mewn llawer o eglwysi gwahanol. Hyd at y pwynt hwnnw dim ond mewn un eglwys roeddwn i erioed wedi addoli a darganfod yn sydyn bod mwy o eglwysi a mwy o bobl ac nad yw pawb sy'n mynd i'r eglwys yn wyth deg oed!

### **Sut wnes di synhwyro Duw yn dy alw di i weinidogaeth ordeiniedig?**

Teimlais fy mod yn cael fy ngalw i ordinasw'n i ddechrau, er nad oeddwn yn gwybod beth oedd hynny ar y pryd, pan oeddwn yn bedair ar ddeg. Canais yn y côr mewn gwasanaeth ordeinio yng Nghadeirlan Christ Church yn Rhydychen lle roedd rhywun o fy eglwys yn cael ei ordeinio. Mae'r côr bron â swatio allan o'r ffordd yng Nghadeirlan Christ Church ac roedd gen i wir ymdeimlad o fod yn y lle anghywir.





were singing so it wasn't as though there was a wide circle of friends.

I do a lot of bellringing, so when I moved to London I did a huge amount of that and it meant that I was ringing at lots of different churches. Until that point I'd only ever worshipped in one church and suddenly discovered there were more churches and more people and that not everyone who goes to church is eighty years old!

### **How did you first sense God calling you to ordained ministry?**

I first felt called to ordination, although I didn't really know what that was at that point, when I was fourteen. I sang in the choir at an ordination service in Christ Church Cathedral in Oxford where someone from my church was being ordained. The choir is almost tucked out of the way in Christ Church Cathedral and I had a real sense of being in the wrong place.

During my undergraduate degree I was exploring what vocation means so alongside my third year I was a Pastoral Assistant in a church in London although that was the year that Covid hit.

### **Is there anything that stands out to you from your time at college?**

I did a couple of placements while I was there. We have a summer placement for about a month. In my first year I went to rural Derbyshire, to a post industrial, ex-mining village which was very deprived. The people were lovely and were always inviting me around for tea and to meet their cows. In contrast to that, my second summer placement was in Saint Thomas's Fifth Avenue in New York. It was a really amazing experience. Their congregation, staff team and financial situation is so different to what we're used to. Bizarrely the two summer placements complemented each other really well and I learnt so much from them both. Relationships within ministry are really important.


The other thing I really enjoyed at college were the conversations in the morning before people had had their first coffee. Some of the conversations we had last term ranged from "Can an alligator walk upstairs?" to, "What would it mean if Jesus were a twin?" I really enjoy those kind of conversations and they're the kind of thing that lots of people will engage with.

### **What does your faith mean to you?**

My faith is a constant that underpins everything else. I like to think that I'm a normal person whose faith is evident in all that I do. My faith isn't something separate that just happens in church or in my study.

### **What are you looking forward to about ministering here?**

So much of my time in training was affected by Covid and so I'm looking forward to getting back to doing "stuff". I grew up doing things around the church and then when I went to train and suddenly you're not allowed to do anything anymore.



Yn ystod fy ngradd israddedig roeddwn yn archwilio beth mae galwedigaeth yn ei olygu felly ochr yn ochr â'm trydedd flwyddyn roeddwn yn Gynorthwy-ydd Bugeiliol mewn eglwys yn Llundain er mai dyna'r flwyddyn y tarodd Cofid.

### **A oes unrhyw beth sy'n nodedig yn dy dyddiau di'n y coleg?**

Fe wnes i ddau osodiad tra roeddwn i yno. Rydym yn gwneud gosodiad haf am tua mis. Yn fy mlwyddyn gyntaf es i Swydd Derby a oedd yn wledig iawn, i bentref ôl-ddiwydiannol, cyn-bentref glofaol a oedd yn ddifreintiedig iawn. Roedd y bobl yn hyfryd a bob amser yn fy ngwahodd o gwmpas am de ac i gwrdd â'u gwartheg. Mewn cyferbyniad â hynny, roedd fy ail leoliad haf yn Saint Thomas Fifth Avenue yn Efrog Newydd. Roedd yn brofiad rhyfeddol iawn. Mae gynnon nhw gymaint o gynulleidfa, staff ac arian – mae'n byd hollol wahanol i'r hyn sy'n gyfarwydd i ni. Yn rhyfedd iawn, roedd y ddau leoliad haf yn ategu ei gilydd yn dda iawn a dysgais gymaint gan y ddau ohonynt. Mae cydberthynas o fewn weinidogaeth yn holl bwysig.

Y peth arall wnes i fwynhau yn fawr yn y coleg oedd y sgysiau yn y bore cyn i bobl gael eu coffi cyntaf. Roedd rhai o'r sgysiau a gawsom y tymor diwethaf yn amrywio o "A all alligator gerdded i fyny'r grisiau?" i, "Beth fyddai'n ei olygu pe bai lesu yn efail?" Rwy'n mwynhau'r mathau hynny o sgysiau yn fawr ac maen nhw'r math o beth y bydd llawer o bobl yn ymgysylltu â nhw.

### **Beth mae dy ffydd yn ei olygu i ti?**

Mae fy ffydd yn gysonyn sy'n sail i bopeth arall. Rwy'n hoffi meddwl fy mod yn berson normal a bod fy ffydd yn amlwg ym mhopeth a wnaf. Nid yw fy ffydd yn rhywbeth ar wahân sy'n digwydd yn yr eglwys neu yn fy astudiaeth.


### **Beth wyt ti'n edrych ymlaen ato ynglŷn â gweinidogaethu fan hyn?**

Effeithiwyd cymaint o fy amser yn hyfforddi gan Cofid ac felly rwy'n edrych ymlaen at ddychwelyd i wneud "stwoff". Cefais fy magu yn gwneud pethau o fewn yr eglwys ac yna pan es i hyfforddi ac yn sydyn ni chaniateir i chi wneud unrhyw beth mwyach.

Dwi hefyd yn edrych ymlaen yn fawr at ochr gerddorol.

Des i Fangor ym mis Ionawr i ymweld a mwynheais fy amser yn fawr. Roedd pawb yn hyfryd iawn. Dechreuais i ddysgu Cymraeg ar y trê'n ar y ffordd adref. Dydw i ddim yn gret am ieithoedd ond dydw i ddim yn ofnadwy chwaith felly mae dysgu Cymraeg yn digwydd yn araf. Rwy'n meddwl y bydd bod yma'n fwy rheolaidd yn help mawr.

Mae gen i olwg eithaf uchel ar y sacramentau a'r Cymun yn arbennig. Dyna ganol swydd yr offeiriad ac mae popeth arall yn deillio o hynny, a dwi'n edrych ymlaen i ddatlu gyda ac er mwyn pobl y Gadeirlan, Bro Deiniol a'r ddinas. [B]



I'm also really looking forward to the musical side of things.

I came up to Bangor in January to visit and really enjoyed my time. Everyone was really lovely. I started learning Welsh on the train on the way home. I'm not amazing at languages but I'm not terrible at them either so learning Welsh is happening slowly. I think being here more regularly will really help.

I have quite a high view of the sacraments and the Eucharist especially. That's the centre of the priest's job and everything else stems from that. I'm looking forward to celebrating with and for the people of the Cathedral, Bro Deiniol and the city. [B]



# O DDUW HOLL GYFOETHOG

Pregethwyd y bregeth hon gan yr Is-Ddeon  
ar y Sul cyn y Grawys, Cwincwagesima, 19  
Chwefror 2023.

Y thema, yn ei cyfres bregethu, oedd cerdd o  
eiddo Gwenallt.

**Catholigiaeth gan Gwenallt (David James Jones; 1899-1968)**

Fe'i carcharwyd gan Ei gnawd a'i esgyrn Iddewig  
Y tu mewn i derfynau Ei wlad,  
Ond fe'u rhoes fel estyll byw i'w morthwyllo,  
A'u codi o'r beddrod, ar waethaf y gwylio,  
Yn gorff catholig gan Ei Dad.

A mwy y mae Caerdydd cyn nesed â Chalfaria,  
A Bangor bob modfedd â Bethlehem,  
Gostegir y storm ym Mae Ceredigion,  
Ac ar bob stryd fe all y lloerigion  
Gael iechydwrriaeth wrth odre Ei hem.

Ni chuddiodd Ei Efengyl rhwng cymylau Jwdea,  
Y tu hwnt i dafod a llygaid gŵr.  
Ond rhydd y bywyd sydd fyth i bara  
Mewn llymaid o win a thamaid o fara,  
A dawn yr Ysbryd mewn diferion dŵr.

**Y**n y flwyddyn 1346, mi ofynodd un Gruffydd  
ap Llywelyn ap Phylip ap Trahaearn o Gantref  
Mawr yn Sir Gâr – bro mebyd Gwenallt, fel mae'n  
digwydd – mi ofynodd Gruffydd ap Llywelyn ap  
Phylip ap Trahaearn i feudwy (rhyw fath o fynach  
yn byw bywyd o'r neilltu, a rei ben ei hun) – mi ofynodd Gruffydd  
ap Llywelyn ap Phylip ap Trahaearn i feudwy gynhyrchu cyfieithiad  
Cymraeg o ysgrifau Lladin Canol Oesol am natur y duwdod, yn eu

# TRANSCENDENCE AND IMMANENCE

The Sub-Dean preached this sermon on the Sunday next before Lent, Quinquagesima, 19 February 2023.

The theme, as part of our sermon series, was a poem by Gwenallt.


**Catholicity** by Gwenallt (David James Jones; 1899-1968)  
Translated by Patrick Thomas

He was imprisoned by his flesh and Jewish bones  
Within the confines of his land  
But he gave them as a living plank to the hammering  
And was raised from the grave, despite the guards  
As a catholic body by his Father.


And now Cardiff is as near as Calvary,  
And Bangor every inch as near as Bethlehem.  
Storms are stilled on Cardigan Bay,  
And in every street the afflicted  
Find healing from the touch of his hem.

He did not hide his gospel among the clouds of Judea,  
Beyond the tongues and eyes of men,  
But he gives the life which lasts forever  
In a drop of wine and a crumb of bread  
And the gift of the Spirit in the flow of water.

**B**ecause of the additional poem that forms part of our liturgy during these Gesima Sundays and the Sundays of Lent, I've been encouraging my colleagues to keep their sermons concise so that we don't drown in words before lunch. And, so, to do my part, I can summarize this morning's sermon in a sentence: "God is transcendence and immanence, and there's only you with Christ in-between." Gwenallt puts it better, if not necessarily any



plith nhw'r *Elucidarium* gan Honorius Augustodunensis, mynach o'r 11eg ganrif a fu'n byw am gyfnod yn Lloegr cyn marw'n yr Alban, ac a oedd yn rhyw fath o Barbara Cartland diwinyddol ei oes, yn ysgrifennu'n lliwgar ac yn ddeniadol am ddigeleddau'r ffydd. Mae llawysgrif meudwy Gruffydd ap Llywelyn ap Phylip ap Trahaearn yn bodoli hyd heddiw – fe'i chyflwynwyd hi i Goleg Iesu yn Rhydychen ar dro'r ddeunawfed ganrif; mae hi bellach yn Llyfrgell y Bodleian, ac fe'i adnabyddwn ni hi fel *Llyfr Ancr Llanddewibrefi*. A diolch i Gruffydd ap Llywelyn ap Phylip ap Trahaearn a'i feudwy anhysbys, mae gennym ni'r cyfeiriad ysgrifenedig cyntaf at Dduw gan ddefnyddio'r ansoddair "hollgyfoethog." Mae'r ansoddair yno i ddirgrifio Crist yng nghyfeithiad William Salesbury o'r Testament Newydd ac mae o yno fel un o'r prif



## **MAE DUW FEL Y MÔR YN YMESTYN TU DRAW I YNYS SEIRIOL A'R GOGARTH, . MAE DUW FEL GOLAU'R HAUL AR FORE FFRES MIS CHWEFROR. MAE DUW FEL YR ENFYS, YN CYNNWYS HOLL LIW'R CREAD**

ansoddeiriau wrth gyfeirio at Dduw yn Llyfr Gweddi Cymraeg cyntaf y Diwygiad Protestanaidd ym 1567. Mae o'n rhyw hercio mlaen yn Llyfr Gweddi gwyrdd 1984 yr Eglwys yng Nghymru, ond erbyn Llyfr Gweddi coch 2004, mae "hollalluog" (er gwaethaf trafferthion y llond ceg hwnnw i genedlaethau o ddesgwyr offeiriadol) – mae hollalluog wedi trechu "hollgyfoethog" fel ein hansoddair arferol ni wrth geisio diffiniad o gymeriad Duw.

Mae'n chwith gen i am hynny. Anodd gen i beidio â chlywed yn yr ansoddair "hollalluog" ddisgrifiad o'r hyn â wna Duw. Duw yr un a fedr wneud pob peth, yr un sydd meddu pob gallu. Bron ni chlywa'i ddisgrifiad gwrol braidd – dyma'r un grymus, pwerus, awdurdodol, a fedr ymyrryd a gweithredu; "hollalluog" – bron na chlwywa'i daran ac addewid y fellten os na fydda'i'n byhafio.

Dwi'n hoff o "hollgyfoethog" fel disgrifiad am ei fod o'n ddisgrifiad purach o hanfod Duw. Nid un sydd yn gweithredu ydi Duw – dyn ar y cwmwl sy'n fwy pwerus na chi a fi. Duw wedi ei lunio ar ein delw ni ydi hynny. Perffeithrwydd Ffydd a Gobaith a Chariad ydi Duw. Pan mae'n ffrind i, Andrew Davison, yn un o'i lyfrau cymhleth o am Dduw, yn ceisio disgrifio natur Duw, yn ceisio rhoi enw i Dduw, mae o'n galw Duw, hefo llythyren fawr bob tro, yn Bore a Gwawr a Golau Cyntaf a Tarddiad ac y Gwreiddiol; a Mesur, a Siâp, a Ffurf, a Dimensiwn; a Aeddfedrwydd a Ffrwythlondeb a Tynged a'r Datguddiedig. Mae'r geiriau'n byrlymu oherwydd bod unrhyw ymdrech i ddisgrifio

more clearly, in today's poem: "now Cardiff is as near as Calvary," – Cardiff has essentially the same awesomeness as Calvary, he means, "Bangor every inch as Bethlehem." "God is transcendence and immanence, and there's only you with Christ in-between." Daydreaming choristers if they dare and distracted congregants may want to switch off now; for the rest of us, here's eight minutes on what I think that means.

Transcendence.

I noticed that the *Daily Mail* last week got itself into a bit of a lather following a discussion in the Church of England about the possibility of using non-gendered language when talking about God. I remember a cabaret song that I heard in Edinburgh once, summarizing the *Daily Mail's* mixture of celebrity gossip and reactionary politics in eight words as: "Too fat, too thin, don't let them in." Last week, it was worried that respectable English Anglicans would no longer be allowed to refer to God as "Him." As respectable Welsh Anglicans, we don't do much of that at the moment anyhow; because we know that God isn't a man, white-haired and bearded, beyond the clouds. We know, though we use human words for God, though we give God human characteristics, that if we believe that *too* adamantly, we end up making God in our own image; and, if we make God too much like us, we allow our understanding of God to be dominated by our own understanding of power and relationships; and, as night follows day, we begin then to beg and bargain, to make deals and sulk, to get hurt when we don't get what we want, to try to hide things when we're ashamed, to feel guilty when we know when we can't hide any more but can't bear to turn round either. God becomes a parent or a friend whom we placate or fall out with. God isn't a man, white and bearded beyond the



Duw, i enwi Duw, yn wael, yn ffôl bron, oherwydd mae Duw yn *hollgyfoethog*, yn meddu popeth, yn cynnwys popeth. “Ynddo,” meddai Elfed yn ein emyn agoriadol ni, “Ynddo mae presylfa’r oesau; dechrau, diwedd popeth yw; newydd beunydd yw ei ddoniau.” Nid dyn ydi Duw, nid creadur sy’n bodoli ydi Duw; tydi Duw ddim yn “beth”. Bodolaeth ydi Duw. Mae Duw fel y môr yn ymestyn tu draw i Ynys Seiriol a’r Gogarth, yn ddiwedd, yn dragwyddol ei dreigl. Mae Duw fel golau’r haul ar fore ffres mis Chwefror, yn cynnal bywyd, yn creu ac yn deffro’r egin newydd yn barhaus. Mae Duw fel yr enfys, yr addewid i Noa, yn cynnwys holl liwiau’r goleuni, yn gyfuniad o law a heulwen bywyd, yn lewyrch na chanfyddwn ni byth mo’i ddechrau na’i ddiwedd. Diolch a fo i feudwy Gruffudd ap Llywelyn ap Phylip ap Trahaearn am ei “hollgyfoethog.”

*A Bangor bob modfedd â Bethlehem.*


Bedair can blynedd yn ôl yn union i eleni, fe fu farw Edmwnd Prys. Fe fu o’n Reithor Ffestiniog ac yn Archddiacon Meirionnydd (ac felly, mae’n debyg, yn Ganon o’r Gadeirlan hon) am yn agos i hanner canrif; ond fuodd o ddim yn segur. Fe fu o’n gyd-fyfyriwr i William Morgan yng Ngholeg Sant Ioan yng Nghaegrawnt, ac yn rhan wedi hynny o’r fenter fawr honno o gyfieithu’r Ysgrythyrau i’r Gymraeg. Ond bardd, nid cyfieithydd manwl, oedd Edmwnd Prys, a’i gyfraniad o i’r fenter oedd gosod pob un o’r Salmau ar fesur emyn. Fe gyhoeddwyd ei *Salmau Cân* o fel atodiad i Lyfr Gweddi 1621, ac mae’n debyg mai’r salmau mydryddol hynny a fyddai wedi bod yn unig emynyddiaeth Gymraeg yr Eglwys yng Nghymru am ganrif a mwy. Fel teyrnged i’w gyfraniad o i’r iaith, fe lwyddo ni’n y Gadeirlan hon, ym 1923 a hithau’n drichanmlwyddiant ei farwloaeth o, i osod cofeb iddo yng Nghapel Mair, a honno’n uniaeth Saesneg – rhywbeth y gobeithiwn ni fedru ei gywiro yn ystod y pedwarcanmlwyddiant, ac fe ganwn ni osodiadau newydd o’i gerddi fan hyn yn ystod yr Wythnos Fawr.

Dyma i chi bedair llinell o emyn Edmwnd Prys yn seiliedig ar Salm 139. Dyma chi’r Salmydd yn siarad yn uniongyrchol hefo Duw:

Cyn fy ngeni, ysgrifennaist  
Yn dy lyfr holl dro fy rhod,  
Ac fe ffurfiaist fy holl ddyddiau  
Pan nad oedd yr un yn bod.

Salm ydi Salm 139 sy’n son am ba mor agos ydi Duw tuag atom ni – sut y “lluniaist fi yng nghroth fy mam”. “Chwilia fi,” meddai Prys wedyn (na chi ddefnydd anffurfiol o iaith a wnaeth ei emynau fo’i gyd mor boblogiadd – rhyw fodd o ddod â Duw’n agos eto yn y canu)... “Chwilia fi, O Dduw, a phrofa / Fy meddyliau i bob un.” A phenllanw’r agosatrwydd a’r adnadob hynny yn y bedair llinell hynny:

Cyn fy ngeni, ysgrifennaist  
Yn dy lyfr holl dro fy rhod,  
Ac fe ffurfiaist fy holl ddyddiau  
Pan nad oedd yr un yn bod.





clouds. God is perfect Faith and Hope and Love. When my friend, Andrew Davison, in one of his very complicated books about God, tries to describe God's power and God's relationship with Creation, he ends up calling God, with a big first letter, Morning and Sunrise and First Light and Source and Originator and Revealer; and Measure and Shape and Form and Dimension; and Maturity and Summit, and Fruition and Destiny and Revealed-ness.


The words cascade because any effort to describe God falls short. John Mason, a great and curious seventeenth century hymn writer, captures that sense of never quite being able to say all there is to say about God in one of his best-known hymns. Of God, he says, "How shall I sing that majesty which angels do admire? Thou art

## **GOD IS MORNING AND SUNRISE AND FIRST LIGHT; AND MEASURE AND SHAPE AND FORM; AND MATURITY AND SUMMIT, AND FRUITION AND DESTINY AND REVEALED-NESS**

a sea without a shore, a sun without a sphere." We're not the only ones to talk like this of God. The Jewish scriptures refuse even to give God any name that can be said out loud, such is the danger, the presumption, of pretending we know enough of God to ascribe even so much as a noun to him, her, them. Junayd of Baghdad, one of the earliest mystics of Sufi Islam, struggling for names, for nouns, himself, refers to God, again with upper case first letters, as the "Beginninglessly Eternal." Paul Tillich, the greatest Protestant theologian of the last century, referred to God as the "depth of being." God is not a man, God is not a creature, God is not a thing. God is like the sea that stretches out beyond Puffin Island and the Great Orme, endlessly, eternally rolling; God is like the sun's light on a crisp February morning, sustaining life, constantly creating and awakening. God is like the rainbow, containing all the colour of life and light, encompassing the sunshine and the rain of our existence, whose beginning and whose end we can never find. God, to whom we dare to give a name, has no beginning, no end, for God is the "Beginninglessly Eternal." God, through whom, and with whom, and in whom we live, is the depth of being. Transcendence we call that, staring into the depth, and knowing we don't see even half of it.

Immanence.

And yet, though we know that's all true of God's vastness and untouchability, I venture that each of us is here today because we



Nid credu wnawn ni yn sgil hynny bod pob dim wedi ei benderynu a'i osod – nid dyna'r byrdwn. Ceisio disgrifio wna'r salmydd a Prys yn ei dro bod Duw'n agosach ato ni rhywsut nac yn ydan ni hyd yn oed at ein hunain. Mor fanwl a thyner a gofalus ydi sylw Duw o'n mewn ni. At Dduw yn unig, y Duw hwnnw sydd mor agos, y trown ni yn ein gwendid, a'r ein hisaf, i ofyn yn fynwesol yn ein bregusrwydd, fel y claf yn yr Efengyl heddiw, "O Dduw, trugarha wrthyf."

Mae Paul Tillich, un o ddiwinyddion mawr y ganrif ddiwethaf, yn ein hannog i feddwl am Dduw fel ein "gofid pennaf" ni – yn hyn fyddai'n dal i sefyll ohonom ni ar ôl i bopeth arall gwympo'i ffwrdd; yr hyn y bydde ni'n ei lynu wrtho os cymryd popeth arall oddi wrthym ni; yr hyn yr ydym yn ei addoli, yr hyn sydd anwylaf i ni, yr hyn sy'n ein ffurfio ni; yr hyn y bydden ni'n marw drosto. Yr hyn sy'n ateb pan ofynnwn ni, yn ein gwendid, ar ein hisaf, "Trugarha wrthyf".

### *A Bangor bob modfedd â Bethlehem.*



Meddai Gwenallt, "Ni chuddiodd Ei Efengyl rhwng cymylau Jwdea." "A mwy y mae Caerdydd cyn nesed â Chalfaria, / A Bangor bob modfedd â Bethlehem." Ein hatgoffa ni wna Gwenallt, a ninnau ar drothwy'r Grawys, nad hanes a gawn ni wrth ddilyn Crist i Gaersalem a Chroes, a beddrod a bore'r Pasg. Nid stori am rywbeth ddigwyddodd gynt sydd o'n blaenau ni i'w hadrodd a'i chydabod mewn defod a chân. Datguddiad ydi Crist i ni o'r duwdod sydd mor agos atom ni hyd nes i Dduw yng Nghrist gymryd ein cnawd ni a byw a charu a dioddef a mawr fel nynni. Datguddiad ydi Crist i ni o'r duwdod sydd mor *hollgyfoethog* nes i Dduw yng Ngrist drechu angau a chodi'r Trydydd Dydd i'r bywyd newydd hwnnw sy'n blaguro bob gwanwyn, ac a fydd y cyfan ohono ni ryw ddydd.


Wrth i ni gyd-gerdded â Christ tua'r Groes a thu hwnt y Grawys hwn, peidiwn â chofio digwyddiad hanesyddol. Ond syllu arno, i weld y Duw sydd mor agos atom ni â thrugaredd, a'r Duw sydd mor hollgyfoethog â goleuni pob gwawr newydd a ddaw i ni yn ein tro. [B]

have also known, at some time, that God is nearer to us than we are to ourselves. The authors of the psalms knew that. “You knit me together in my mother’s womb,” they say in the 139th psalm; “my body was not hidden from you while I was being made in secret. For you yourself created my inmost parts. Your eyes beheld my limbs, yet unfinished; all of them were written in your book, when as yet there was nothing of them.” Here is God, the still small voice; here is the experience of our very souls as a thin place, and God so near. Coming at it a little differently, Paul Tillich encourages us to think of God as our “ultimate concern” – that which alone would matter once all else had been stripped away; that which we would cling to as all else was being taken from us; that which we adore, which is dearest to us, which forms us; that for which we would die. That which, when our life is at its lowest – that which has mercy on us. God’s immanence, we call that, at the heart of us, the ultimate of us.

## **I VENTURE THAT EACH OF US IS HERE TODAY BECAUSE WE HAVE ALSO KNOWN, AT SOME TIME, THAT GOD IS NEARER TO US THAT WE ARE TO OURSELVES**

And because for most of us, who are not saints, all that transcendence and all that immanence is too much to bear, because to stare at it would kill us, as Moses says in the Old Testament, God is revealed to us in Jesus Christ, in human form – not as a man who lived once, but as the face of God’s transcendence and God’s immanence – the face of God whom we can see still. God in Christ so immanent that he took our flesh, and lived and loved and suffered and died like us. God in Christ so transcendent that he rose again from the dead into that new life which will be all that is of us.

As you walk with Christ to the Cross and beyond this Lent, do not do so as though you were recollecting an historical event. But gaze at him, to see the God who is so near to you as mercy, and so vast as the light of every new dawning day, that is our destiny. **[B]**



# CYD- WEDDÏWN PENNOD 3

Mae Esgobion yr Eglwys yng Nghymru wedi ein gwahodd, yn ystod 2023, i ganolbwyntio ar feithrin bywyd gweddigar. Bydd pob rhyfyn o Fuchedd Bangor eleni yn cynnwys erthygl ar destun neu arddull gweddi.

Mae'r erthygl hon yn atgynhyrchu pregeth y Canon dros Fywyd Cynulleidfaol yn y Cymun Bendigaid ar Gân ar Ddydd Mercher y Llundw.

**Penlinio** gan R. S. Thomas (1913-2000)  
Cyfieithiad Siôn Aled

Adegau tawelwch mawr,  
Ar fy ngliniau gerbron  
Allor bren mewn eglwys garreg  
Yn yr haf, yn disgwyl i'r Duw  
Lefaru; tawelwch  
Yn dringo grisiau'r awel; golau'r haul  
Yn gyloch o 'nghwmpas, fel pe cyflawnwn  
Ryw swyddogaeth bwysfawr. A'r gynulleidfa'n  
Llonydd; pob un o'r dorf ysbrydion  
Yn pwyso ataf, yn disgwyl, fel finnau,  
Am y neges.

Procia fi, Dduw;

Ond ddim eto. Pan lefaraf,  
Er i tithau lefaru Drwof fi, fe gollir rhywbeth.  
Yn y disgwyl mae'r neges.

**M**ae yna rai eglwysi sy'n britho'n cefn gwlad lle mai anaml iawn y gwelir ymwelwyr yn galw. Efallai mai dim ond un gwasanaeth y mis a geir yno neu wasanaethau gydol yr haf yn unig. Mae sawl un mewn mannau anghysbell, neu lefydd

# ON PRAYER

## CHAPTER 3

The Bishops of the Church in Wales have invited us, during 2023, to deepen our life of prayer. Each issue of *Buchedd Bangor* this year includes an article reflecting on a means or subject of prayer and praying.

This article reproduces the Canon for Congregational Life's sermon at the Choral Holy Eucharist on the Ash Wednesday.


**Kneeling** by R. S. Thomas (1913-2000)

Moments of great calm,  
Kneeling before an altar  
Of wood in a stone church  
In summer, waiting for the God  
To speak; the air a staircase  
For silence; the sun's light  
Ringing me, as though I acted  
A great rôle. And the audiences  
Still; all that close throng  
Of spirits waiting, as I,  
For the message.

Prompt me, God;

But not yet. When I speak,  
Though it be you who speak  
Through me, something is lost.  
The meaning is in the waiting.

**T**here are churches scattered across the countryside where humans are infrequent visitors. They may only have a service every month or services through the summer. Many are in places that are not so easy to reach, or places where few visitors know to go.



mai prin ydy'r rhai hynny sy'n gwybod lle maen nhw.

Cyn y gellir cynnal gwasanaeth yn un o'r eglwysi hyn, fel ymhob eglwys arall, bydd aelodau'r gynulleidfa yn mynd ati i baratoi'r eglwys.

Ond yn y rhain, nid yr arferol o osod yr allor a sicrhau fod y bara a'r gwin yn barod i'w gweini yn unig sydd raid digwydd.

Mae'r hyn sydd ynghlwm â pharatoi eglwys wledig ar gyfer gwasanaeth yn golygu cryn mwy o waith. Mae'n rhaid brwydro â gwe pry cop a mwd; ac weithiau, mae hyd yn oed angen mynd i'r afael â phroblem difrod gan gnofilod fel llygod a'u mhath, wrth ichi gael eich gorfodi i osod tâp cryf o amgylch llyfrau gwasanaeth sydd wedi cael eu blasu neu fegin organ na chafodd lonydd gan y cnowyr.

Mae hi'n dal i fy synnu pa mor sydyn mae natur yn manteisio pan fo pobl yn cilio o unrhyw fan, hyd yn oed os mai ond am ychydig wythnosau. Yn aml, dwi wedi cerdded i mewn i un o'r eglwysi hyn i ganfod gwenoliaid y bondo'n nythu yn y cyntedd, gweoedd pry cop anferth yn gorchuddio'r fynedfa, llygod yn ei heglu hi wedi clywed sŵn traed ac, unwaith, ystlum bach bodlon ei fyd ben-i-lawr mewn cornel dywyll.

Fe ellwch ddychmygu y byddai lle fel 'na'n teimlo'n wag ac anghyfannedd, ond yn aml, nid dyna'r sefyllfa. Er gwaetha'r tawelwch, fe all eich ymddangosiad deimlo fel tasech chi'n ymyrryd neu'n tarfu ar fyd arall.

Ac nid sôn yn unig ydw i am y planhigion a'r anifeiliad neu'r pryfaid llwch sy'n llenwi'r awyr, ond mae rhywbeth arall, sydd bron yn amhosib ei gyfleu. Rhywbeth sy'n teimlo fel oesoedd o weddi, myrdd o gyfarfyddiadau â Duw.

Yn y gerdd, rydyn ni newydd glywed bod modd inni ymdeimlo â chyfaredd y penlinio mewn tawelwch eglwys. Y teimlad hwnnw o fod yn rhan o rywbeth arall, rhywbeth mwy.

Mi fedrwch, wrth gwrs, gamu i mewn a'i fethu. Os ydych chi ar frys neu sylw eich meddwl ar bethau eraill. Wrth frysio a phrystro i baratoi ar gyfer y gwasanaeth nesaf, hawdd colli'r ymdeimlad o arwahanrwydd y gall llecyn o'r fath ei greu; yr argraff hwnnw fod Duw'n bresennol ac a fu'n bresennol hyd yn oed cyn ichi ymddangos.

Medrwn gyfarfod â Duw mewn unrhyw fan a phob man.


Gall fod yn ddisymwth.

Gall Duw gamu i mewn i ganol ein prysurdeb, a gall ei brfesenoldeb ein dal ni'n annisgwyl.

Ond heddiw, fe ddechreuwn ni'n paratoadau ar gyfer y Pasg; cyfres o ddigwyddiadau mor ryfeddol ac anesboniadwy fel ei bod hi'n ddigon posib y byddai arnon ni angen mwy na rhyw frith gyfarfyddiad â Duw i allu eu dirnad ac hyd yn oed dechrau amgyffred eu goblygiadau.

Bydd ein haddoliad, y gerddoriaeth, y darlleniadau, y gweddïau, oll yn raddol droi'n fwy syber a phrudd dros yr wythnosau nesaf.

Mae hi'n adeg y byddwn ni'n cofio lesu yn yr anialwch, ei



Before a service can even take place in one of these churches, just as in every other church, members of the congregation will go in and get the church ready.

But it won't be just the usual setting up of the altar and making sure the bread and wine are put out.

To prepare a rural church for a service involves far more than that. You have to battle with cobwebs and mud; and sometimes even need to deal with rodent damage as you tape up chewed organ bellows or half-eaten service books.

It always amazes me how quickly nature takes over when humans retreat from a place, even if that retreat lasts only a few weeks. I've often walked into one of these churches to be faced with house martin nests in the entrance, huge spiders' webs covering the doorway, mice scurrying away at the sound of footsteps, and one time a bat happily suspended from a darkened corner.

You might imagine that such a place would feel abandoned and empty. But often that's not the case. Despite the silence, your entrance can feel like an intrusion.

It's not just the flora and fauna or the dust motes that fill the air, but something almost inexpressible. Something that feels like decades of prayer, a myriad of encounters with God.

In the poem we've just heard we can feel that sense of wonder at kneeling in the silence of a church. The sense of being part of something else.

You can, of course, walk in and miss it. If you're in a rush. If your mind is on other things. If you're hurrying towards preparing for the next service, you can miss that sense of otherness that such a place can bring; that impression that God is there and was there before you even entered the stage.

We can meet God in any and every place.

It can surprise us, of course.

God can step into our busyness, and we can be caught off guard by God's presence.


But today we begin our preparations for Easter; a series of events so mysterious that we may need more than a chance encounter with God to be able to enter into it and even begin to understand its implications.

Our worship, the music, the readings, the prayers – all will become more somber over the coming weeks.

It's a time when we remember Jesus in the desert, his suffering, and his temptation by Satan. It's a time when we walk alongside him to the Cross, a time to enter the darkest moments of our faith.

Not simply to reenact the past or to berate ourselves for our sinfulness, but to encounter God and the depth of God's love for us.

To be amazed at what God did through Jesus and to know that the



ddioddefaint, a'i demtio gan Satan. Mae hi'n amser pan fyddwn yn cydgerdded ei daith at y Groes, amser i gamu i mewn i eiliadau a chyfnodau tywyllaf ein ffydd.

Nid yn unig i ailgreu'r gorffennol neu i gystwyo'n hunain am ein natur bechadurus, ond i gyfarfod â Duw a dyfnder cariad Duw tuag aton ni.

Felly, yn ein paratodau ar gyfer yr Wythnos Fawr, trwy ein disgyblaethau dros gyfnod y Grawys, rydyn ni'n weithredol yn chwilio am y cyfarfyddiad hwnnw â Duw, rydyn ni wrthi'n disgwyl.

Disgrifia R. S. Thomas y cyfarfyddiad hwnnw wrth benlinio yn nhawelwch eglwys. Efallai hyd yn oed un o'r eglwysi gwledig hynny lle mae Duw'n llenwi'r gwacter. Ond dydy hynny ddim o reidrwydd am fod yn wir i bawb.

Fe glywson ni ddydd Sul dwytha pa mor anesboniadwy ydy'n cred fod Duw'n agosach aton ni nag ydyn ni at ein hunain, fel bod Duw bob amser ar gael ar gyfer y cyfarfyddiad hynny, unrhyw bryd ac unrhyw le.

Ninnau sydd angen meithrin y cyfarfyddiad hwnnw, i ganfod y manau sy'n ein newid ni, yn ein pwylllo. I gael hyd i'r hyn sy'n ein gwneud ni'n agored i'r cyfarfyddiad.

Lle neu sut wnewch chi ddisgwyl?


I rai, efallai mae mewn eglwys fyddai hynny, yn y tawelwch, yn y gerddoriaeth, yr aroglarth neu drwy'r bara a'r gwin.

Neu mae'n bosib mae eich llecyn chi ydy coedlan ymysg y pren hynafol, neu ar draeth yn myfyrio ar ehangder y dyfroedd, neu hyd yn oed wrth fwrdd y gegin yn rhannu pryd gyda chyfeillion. Efallai y'i cewch rhwng tudalennau'r Gair, neu yn nisgyblaeth ympryd. Mae cymaint o ffyrdd i gwrdd â Duw ag sydd o eiriau i geisio disgrifio Duw.

Mae rhoi o'r neilltu, edifeirwch, myfyrdod a gweithredoedd elusengar oll yn ddisgyblaethau clodwiw ar gyfer Y Grawys, ond ceisiwch hefyd y cyfarfyddiad neilltuol hwnnw.

Sut bynnag y byddwch yn cyfarfod â Duw, gwnewch hynny y Grawys hwn.

Disgwyliwch ar Dduw, fel yn union ag y mae Duw'n disgwyl amdanat ti. [B]





story continues on through us.

So, in our preparations for Holy Week, through our Lenten disciplines, we actively seek that encounter with God, we actively wait.

R. S. Thomas describes that encounter kneeling in the calm of a church. Maybe even in one of those rural churches where God fills the emptiness. But that won't be true for everyone.

We heard last Sunday how inexplicably we believe that God is closer to us than we are to ourselves, so God is always available for that encounter, anytime and anywhere.

It's us that needs to nurture that encounter, to find the places that change us, slow us down. To find that which opens us up to the encounter.

Where or how will you wait?

For some it may be in a church, in the silence, in the music, the incense or the bread and wine.


Or your place may be in a forest amongst ancient trees, or on the beach contemplating the vastness of the sea, or even at the kitchen table sharing a meal with friends. It may be in the pages of a Bible, or the discipline of a fast. There are as many ways to encounter God as there are words we use to try and describe God.

Turning aside, penitence, study and charitable works are all good disciplines for Lent, but seek also that special encounter.

However you encounter God, do that this Lent.

Wait for God, just as God is waiting for you. **[B]**

**EASTER IS  
SO DEEPLY  
MYSTERIOUS  
THAT WE  
MAY NEED  
MORE THAN  
A CHANCE  
ENCOUNTER  
WITH GOD  
TO BE ABLE  
TO ENTER  
INTO IT AND  
EVEN BEGIN  
TO KNOW  
ITS MEANING  
FOR US**



R. S. Thomas (1913-2000)  
gan | by Kyffin Williams (1918-2006)




# EIN CYMDOGAETH YM MANGOR OUR BANGOR NEIGHBOURHOOD

**Saif Cadeirlan Deiniol Sant** ar ganol stryd fawr hiraf Cymru – 1,265m, neu oddeutu milltir, o un pen i'r llall.

Yn rhifynnau eleni o **Fuchedd Bangor** rydym yn cwrdd â rhai o'r bobl sy'n gweithio at geisio gwneud canol y ddinas yn le ffynniannus.

Yn y rhifyn hwn, dyma gymryd cam neu ddau yn ôl o'r Stryd Fawr ei hun i gyfarfod Colin Davies, perchennog Colin's Barbers ar Stryd y Deon. Mae'n egluro pam yr oedd ei waith yn golygu ei fod yn rhuthro o gwmpas Rhiwlas, a phwysigrwydd bod yn fusnes teulu. Bu Colin yn sgwrsio â'n gohebydd lleol, **Chris Dearden**.






**Saint Deiniol's Cathedral stands at the centre of the longest high street in Wales – 1,265m or around a mile long.**

In this year's editions of **Buchedd Bangor** we're meeting some of the people who are working to make our city centre a thriving place.

In this edition, we take a few steps away from the High Street itself to meet Colin Davies, the owner of Colin's Barbers in Dean Street. He talks about why his job meant him rushing round Rhiwlas, and why it's very much a family business. Colin was speaking to our resident reporter, **Chris Dearden**.



**M** i ddois yn farbwr ar hap a damwain.

Mewn gwirionedd, postmon oeddwn i, ac mi es i â'm mab i gael torri ei wallt. Mae fy chwaer Linda yn farbwr hefyd, ond roedd hi braidd yn brysur y diwrnod hwnnw, felly dyma finna'n deud – gan hanner jocio – “dyro'r siswrn i mi a mi wna i o fy hun.”

Ond fel mae'n digwydd mi wnes i joban reit dda arni, a dyma Linda'n awgrymu fy mod i'n hyfforddi i'w wneud o'n iawn fel y gallwn i ei helpu hi yn y prynhawniau ar ôl i mi orffen fy rownd bost.

A dyna be wnes i – roedd swyddfa ddosbarthu Bangor yr adeg honno yn rhoi diwrnod i ffwrdd i ni'r postmyn ganol yr wythnos yn lle dydd Sadwrn, felly mi ddefnyddiais i hwnnw i wneud cwrs coleg un diwrnod yr wythnos, cymhwyso yn 2003 a dechrau helpu Linda yn ei siop.

Ond yn fuan, roeddwn i eisiau cael fy musnes fy hun, a dyma fi'n agor siop farbwr ochor arall i'r bont rheilffordd yn yr ardal da ni weithiau yn ei alw'n “west end” Bangor, cyn symud i Stryd y Deon yn 2012.

Trwy gydol hyn, roeddwn i'n danfon y post yn y bore, gorffen fy shifft efo'r Post Brenhinol, ac yn rhuthro draw i'r siop i agor honno a thorri gwalltiau pobl. Fy rownd arferol oedd Rhiwlas, ac roedd rhaid i mi symud yn gyflym efo'r post i wneud yn siŵr na fyddwn i'n hwyr yn agor y siop!

Daeth popeth i'r pen yn 2012, yn union fel oeddwn i'n gwneud trefniadau i symud i Stryd y Deon. Newidiodd y Post Brenhinol amseroedd ein shifftiau i ddechrau a gorffen yn hwyrach, a doedd o ddim yn mynd i fod yn bosib i mi wneud y ddwy swydd efo'i gilydd.


Felly meddyliais yn ddwys am y peth a phenderfynu bod yn farbwr llawn amser. Doedd o ddim yn benderfyniad hawdd – roedd y Post Brenhinol yn golygu incwm rheolaidd, tra bo bod yn hunan gyflogedig yn golygu mentro.

Ond mi wnes i'r penderfyniad cywir yn bendant. Dysgais yn fuan iawn os ydych chi'n edrych ar ôl eich cwsmeriaid, mae nhw'n edrych ar eich hôl chi – ond nid torri gwallt a chodi pris rhesymol yn unig mae hynny'n ei olygu.

Cysylltodd un cwsmer i ddweud ei fod yn mynychu priodas y diwrnod wedyn, a fyddai modd i mi ei ffitio i mewn. Ond roeddwn yn llawn o saith yn y bore tan yn rhy hwyr iddo fo. Gan nad oeddwn eisiau ei siomi, dywedais y gallwn ddod i mewn am 6.30am y bore wedyn, a dyna beth wnaethon ni!

Tydi codi'n fore ddim yn broblem am i mi fod yn bostmon cynt – dwi ar agor o 7.00am, ond mi fasech chi'n synnu faint o bobl sydd yn gofyn oes modd i mi wneud 6.30am!

Weithiau mae pobl yn dod i mewn i gael torri gwallt ac yn sôn bod ganddyn nhw gyfweliad am swydd y diwrnod wedyn. Efallai y gallwch



became a barber almost by accident.

I was actually a postman, and I took my son to have a haircut. My sister Linda is a barber as well, but she was a bit busy that day, so I said – half jokingly – “give me the scissors and I’ll do it myself.”

But I actually did quite a good job, and Linda suggested that I train to do it properly so I could help her in the afternoons after I’d finished my post round.

So that’s what I did – Bangor sorting office gave us postmen a midweek day off in lieu of Saturdays at that time, so I used it to do a college course one day a week, qualified in 2003 and started helping Linda in her shop.

But I soon wanted to have my own business, and set up a barber’s shop the other side of the railway bridge in what we sometimes call the “west end” of Bangor, before moving to Dean Street in 2012.

All the while, I was delivering the post in the morning, finishing my shift with Royal Mail and dashing over to the shop to open up and cut people’s hair. My regular round was Rhiwlas, and I had to move quickly with the post to make sure I didn’t run late opening the shop!

It all came to a crunch in 2012, just as I was negotiating to move to Dean Street. Royal Mail changed our shift times to start and finish later and it wasn’t going to be possible to run the two jobs together.

So I thought long and hard and decided to be a barber full time. I wasn’t an easy decision – Royal Mail meant regular income, while being completely self employed meant taking a risk.


But I definitely made the right decision. I learned very quickly that if you look after your customers, they look after you – but that doesn’t just mean cutting hair well and charging a reasonable price.

One customer got in touch saying he had a wedding to go to the next day, and could I fit him in. But I was completely booked up from seven in the morning until too late for him. Not wanting to let him down, I said that I could come in at 6.30am next morning, and so that’s what we did!

Early starts aren’t a problem because of my past job as a postman – I’m open from 7.00am, but you’d be amazed how many people will actually ask if I can do 6.30am!

Sometimes people come in for a haircut and mention that they’ve got a job interview the next day. Maybe you can just tell that they’re nervous, so we design their style together for the occasion, and talk about what sort of things they might get asked.

But the role of a barber means I don’t always get to know if they get the job or not! As part of my training, they actually taught us how to chat to customers – never ask anything too personal – go with the



weld eu bod yn nerfus, felly da ni'n trefnu eu steil efo'n gilydd ar gyfer yr achlysur, ac yn trafod pa fath o bethau fydd yn debygol o gael eu gofyn.

Ond mae rôl barbwr yn golygu nad ydw i bob amser yn cael gwybod a gawson nhw'r swydd neu ddim! Fel rhan o fy hyfforddiant, mi wnaethon nhw ein dysgu ni sut i sgwrsio efo cwsmeriaid – peidio byth â gofyn dim byd rhy bersonol – a dilyn llif y sgwrs.

Weithiau dwi'n meddwl bod arnoch angen sgiliau pobl yn gymaint â sgiliau efo'r siswrn! Os oes rhywun yn dod i mewn nad ydych yn eu gweld yn aml, mae modd eich cael eich hun yn cadw'r sgwrs i fynd tra'r ydych yn ceisio cofio pwy ydyn nhw, a beth ddywedon nhw'r tro diwethaf, ac ymdrechu i beidio cawlio trwy gofio rhywbeth yn anghywir.

Dwi bob amser yn sicrhau fy mod yn gwrando yn gymaint ag yr ydw i'n siarad, weithiau mwy, a chadw pethau'n bositif. Da ni'n medru trafod pethau difrifol, ond yn aml mae chwerthin yn well moddion. Mae digon o gellwair am bêl-droed – dwi'n cefnogi Arsenal F. C. ac mae gen i lwyth o bethau cysylltiedig â nhw yn y siop, a bydd hynny'n cychwyn sgwrs fel arfer os ydi rhywun yn ddilynwr pêl-droed.

Bydd pobl yn aml yn agor allan, yn arbennig os nad oes rhywun arall yn aros yn y siop. Mae faint y maent yn ymddiried yn och yn fy narostwng – felly mae rheol yma, sef “mae beth sy'n digwydd yn y gadair yn aros yn y gadair.”


Mae wedi gwneud i mi sylweddoli bod pawb angen rhywle i stopio, camu yn ôl, i siarad weithiau, weithiau i gael ychydig o lonyddwch. Pan oeddwn i'n bostmon, i mi y lle hwnnw oedd lle o'r enw Tyn Llidiart, allt ar fy rownd yn agos i Rhiwlas. Roedd modd gweld yr holl ffordd ar draws Ynys Môn i wyllo'r fferis yn dod i mewn i Gaergybi.

Ond yn fwy diweddar, rwy'n gwerthfawrogi sut y gall Cadeirlan Deiniol Sant fod y lle hwnnw i bobl hefyd. Mynychais yr Cymun Hanner Nos ar Noswyl Nadolig gyda fy ngwraig, ac roeddem yn gwerthfawrogi'n wirioneddol y cyfle i stopio am awr, i adlewyrchu a gwrando ar y côr. Mae'n adeilad hardd ac mae'r awyrgylch yno yn anhygoel.

Fedrwn i ddim dweud a ydw i'n grefyddol neu ddim; ond bu farw fy nhad y llynedd, a weithiau dwi'n fy nghael fy hun yn gobeithio bod rhywbeth arall allan yna.

Roedd hefyd yn ffordd o atgoffa pa mor werthfawr y gall eich teulu fod. Helpodd anogaeth fy chwaer Linda fi i fynd â'm bywyd ar drywydd hollol wahanol – mae hi'n dal i dorri gwallt rownd y gornel ar y Stryd Fawr, a da ni'n tynnu ymlaen yn dda iawn. Ac erbyn hyn mae fy merch wedi ymuno â fi yn y busnes.

Ac os ydw i'n amau wnes i'r penderfyniad cywir, weithiau dwi'n gweld postmon Bangor yn cerdded heibio yn y glaw, a dwi'n sylweddoli fy mod i wedi gwneud. [B]



flow of the conversation.

